

WESP 06

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Gymraeg | Welsh in Education Strategic Plans - the legislative framework that supports Welsh-Medium Education Provision

Ymateb gan Cymwysterau Cymru | Response from Qualifications Wales

Pwyllgorau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[pwylgorau@senedd.cymru](mailto:pwylgorau@senedd.cymru)



## **A yw Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gweithio: Ymchwiliad Pwyllgor y Senedd - Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Annwyl Gydweithiwr,

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru. Wrth ystyried sut y byddwn yn cyrraedd y nodau hynny, rhaid inni roi sylw priodol i'r wyth mater yn y Ddeddf, ac un ohonynt yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Rydym yn gwybod y bydd y sector addysg yn allweddol wrth helpu Cymru i gyrraedd y targedau uchelgeisiol a nodir yn Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr<sup>1</sup>. I'r perwyl hwnnw, bydd y gwaith o gymeradwyo'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd yn weithredol o fis Medi 2022; cyhoeddi Cynllun Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd<sup>2</sup> – sef cynllun ar gyfer datblygu gweithlu'r Gymraeg mewn ysgolion; yn ogystal â chyflwyno Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ystod tymor hwn y Senedd, yn gwneud cyfraniad allweddol at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Cymraeg 2050.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gan gymwysterau a system gymwysterau Cymru ran bwysig i'w chwarae. I gefnogi hyn, ac i hyrwyddo'r opsiwn i ddysgwyr ddilyn cymwysterau yn eu dewis iaith, cyhoeddwyd ein strategaeth Dewis i Bawb<sup>3</sup> – sef strategaeth o bum mlynedd sy'n nodi'n glir ein hymrwymiad i'r Gymraeg ac i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr yng Nghymru.

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf>

<sup>3</sup> <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/dewis-i-bawb---ein-strategaeth-ar-gyfer-cynyddu-argaeledd-cymwysterau-cyfrwng-cymraeg-2020-25/>

### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Yn y strategaeth hon, rydym yn nodi pedwar maes strategol:

- nodi a blaenoriaethu cymwysterau sydd i'w darparu yn Gymraeg
- cryfhau cymorth a chapasiti yn y system
- adolygu ein Grant Cymorth i'r Gymraeg, a
- gwella gwybodaeth i ddysgwyr, eu hysgolion a'u colegau.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol yn y sector addysg i helpu i gyflawni nodau Cymraeg 2050. Yn fwy penodol, fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru, mae gennym ddiddordeb yng nghyhoeddiad y WESPS 10 mlynedd newydd, i'r graddau yr ydym yn rhagweld ac yn gweithio tuag at farchnad gymwysterau sy'n ymateb i gynnydd yn y galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r WESPs yn adrodd ar y maes hwn o dan 'Deiliant Allweddol 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg'<sup>4</sup>.

Credwn y gallwn wneud cyfraniad, ac ein bod yn gwneud cyfraniad, at nifer o ganlyniadau a thargedau Cymraeg 2050. Bydd ein gwaith i sicrhau ac addasu'r ystod o gymwysterau sy'n asesu'r Gymraeg ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed; ein hymrwymiad i sicrhau cymwysterau dwyieithog i bobl ifanc 14-16 oed sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm newydd i Gymru fel rhan o'n gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a chynyddu'r ystod o gymwysterau ôl-16 sydd ar gael yn ddwyieithog yn cael effaith sylweddol ar nodau Llywodraeth Cymru.

Er ein bod ar hyn o bryd wedi penderfynu creu dau gymhwyster TGAU Cymraeg penodol newydd ar gyfer dysgwyr mewn gwahanol leoliadau addysgol i gefnogi continwmm y Gymraeg, rydym yn cydnabod y bydd angen i'r cymwysterau Cymraeg hynny addasu a newid i amgylchiadau'r dyfodol. Ystyriwn hefyd fod cyflwyno cymhwyster ychwanegol bach newydd i ymestyn a herio dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg yn ddatblygiad cyffrous a phwysig.

Mae cynnydd yn y galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i benderfyniadau polisi a wnaed gennym ni a Llywodraeth Cymru yn debygol o arwain at yr angen am arian grant ychwanegol i gyrff dyfarnu. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen ei gefnogi yn y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu inni.

Er ein bod yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd hyfywedd masnachol cymwysterau mewn marchnad

---

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

Ymhlwg i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg Gymraeg yn Lloegr, yn parhau i fod yn her i system gymwysterau Cymru.

A ninnau'n rheoleiddio, ein rôl yw camu i mewn i fynd i'r afael â methiant y farchnad – lle na all y cyflenwyr (sef cyrff dyfarnu yn yr achos hwn) ddiwallu anghenion y farchnad yn uniongyrchol. Mae gennym amrywiaeth o ddulliau rheoleiddio a pholisi ar gael i ni, a bydd angen defnyddio pwerau caled a meddal os ydym am gyrraedd ein nodau. P'un a gaiff cymwysterau eu gwneud ar gyfer Cymru, eu haddasu ar gyfer Cymru, neu eu mabwysiadu yng Nghymru, mae ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion a wynebir, ond bydd angen ymdrech gydweithredol a chydunol ar draws y system addysg i wneud hynny.

Mae disgwyliadau mewn perthynas â'n rôl fel rheoleiddiwr yn newid ac mae mwy o ffocws a phwyslais ar reoli'r system gymwysterau yn agosach, y tu hwnt i reoleiddio'r farchnad ac ymyrryd er mwyn atal neu fynd i'r afael â methiant y farchnad. Bydd y disgwyliadau newidiol hyn yn gofyn am gyllid ac adnoddau ychwanegol os ydynt am gael eu bodloni.

Gobeithiwn y bydd mwy o ffocws ar ddarpariaeth Gymraeg, wedi'i sbarduno gan Fil Addysg y Gymraeg newydd a gwell cynllunio o fewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, yn caniatáu amgylchedd ar gyfer nodi anghenion cymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn well y gallwn wedyn weithio i fynd i'r afael â hwy. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cydweithio a gwaith strategol i gyflawni'r targedau a nodir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac, y tu hwnt i'r rheini, wrth gyflawni canlyniadau Cymraeg 2050. Mae hyn yn arbennig o wir am y sector ôl-16.

Er mwyn cynorthwyo cydweithredu a thargedu ymyriadau, rydym wrthi'n sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol gan gynnwys colegau addysg bellach i gydweithio i ystyried ffyrdd o gynyddu argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid allweddol, a chryfhau ein perthynas â hwy, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac, ar ôl ei sefydlu, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER).

Yn olaf, mae cynyddu capasiti'r gweithlu a chadw dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn heriau systemig a fydd yn mynnu atebion ar y cyd. Bydd y gwaith y mae'r Coleg yn ei wneud i gryfhau capasiti staffio drwy ei Gynllun Gweithredu 'Tuag at Cymraeg 2050', ymrwymiad diweddar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu dysgu Cymraeg i staff addysgu a Chynllun Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru yn hollbwysig yn hynny o beth. Edrychwn ymlaen at weithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

WESP 06

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Gymraeg | Welsh in Education Strategic Plans - the legislative framework that supports Welsh-Medium Education Provision

Hoffem gael Cymwysterau Cymru i Gyfrifedig, Cyfathrebu a Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gynnal yr ymchwiliad pwysig hwn, ac am y cyfle i gyfrannu at y ddadl bolisi bwysig hon.

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol wrth i'r Pwyllgorau ddechrau ar eu gwaith o lunio adroddiad ar ei ganfyddiadau, gan gynnwys unrhyw argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am bob un o'r pwyntiau a godwyd uchod i'r aelodau mewn Atodiad i'r llythyr hwn. Pe bai angen rhagor o wybodaeth arnoch gennym ni, byddem yn fwy na pharod i'w darparu i chi.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth Cymraeg 2050 yn cydnabod bod gan bawb ran i'w chwarae i wireddu ei huchelgais. Mae Cymwysterau Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod system gymwysterau Cymru yn darparu'r amodau i hwyluso cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.

Rydym yn cydnabod bod heriau o ran cyrraedd ein nod a bydd angen i ni adeiladu ar y berthynas waith dda rydym eisoes wedi'i sefydlu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol. Rydym wedi cymryd perchnogaeth o'r her hon ac wedi gwneud cynnydd da yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy dros y ddegawd nesaf wrth i ni weithio tuag at gyrraedd y targedau a'r canlyniadau a osodwyd ar gyfer 2032 - y garreg filltir bwysig nesaf ar ein taith genedlaethol i filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Gyda diolch



David B Jones OBE DL  
**Cadeirydd**



Philip Blaker  
**Prif Weithredwr**

## Ein Gwaith

### Cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Y Cwricwlwm i Gymru fydd y sail ar gyfer dysgu ym mhob ysgol gynradd o fis Medi 2022, mewn rhai ysgolion uwchradd ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 7 ac ar gyfer pob dysgwr ym mlwyddyn 8 o fis Medi 2023.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi cyfle i edrych o'r newydd ar gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed: eu moderneiddio a sicrhau eu bod yn gydlynol â nodau'r cwricwlwm a'u bod o fudd i ddysgwyr yng Nghymru ac yn darparu mwy o gyfleoedd iddynt. Felly, rydym am sicrhau bod gan ysgolion ystod gynhwysol a chydlynol o gymwysterau sy'n diwallu anghenion ein holl ddysgwyr.

Ein rôl ni yw sicrhau bod ystod briodol o gymwysterau ar gael i ysgolion a dysgwyr ddewis o'u plith - gan ganiatáu i ysgolion ddewis y cymwysterau y maent am eu cynnig yn seiliedig ar eu cwricwlwm, anghenion eu dysgwyr ac unrhyw bolisi a sefydlir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall penderfyniadau ynghylch pa gymwysterau i'w cynnig helpu i gyfrannu at ddull gweithredu cenedlaethol sydd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Dyna pam yr ydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer y cymwysterau a wnaed i Gymru<sup>5</sup> o fewn y cynnig hwnnw a mynnu bod pob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer lleoliadau cyn-16 ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Cymwysterau Cymraeg y dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o ddysgwyr yn gadael addysg orfodol yn ddefnyddwyr Cymraeg hyderus ac mae'r weledigaeth hon wedi'i nodi'n glir yn Cymraeg 2050. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, bydd angen amrywiaeth o ymyriadau ar draws polisiau addysg. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad deddfwriaethol i gryfhau a chynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith ac i ddatblygu gweithlu cynyddol sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bu cyflwyno cymwysterau Cymraeg newydd i bobl ifanc 14-16 oed yn nodwedd allweddol ar ein gwaith diwygio. Yn dilyn ymgynghori helaeth ac ymgysylltu â

---

<sup>5</sup> Pan gyfeiriwn at gymhwyster fel un 'a wnaed i Gymru', gwnawn hynny i ddisgrifio cymwysterau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer Cymru, a'r prif gymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru. Nid cysyniad newydd mo hwn; mae llawer o gymwysterau'n cael eu sefyll ar hyn o bryd gan ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau sydd wedi'u datblygu fel cymwysterau i Gymru'n unig.

Mantodoliaid Cymwysterau Gymraeg | Penderfyniadau Cymwynas â chymwysterau Cymraeg y dyfodol<sup>6</sup> yn gynharach eleni.

Er mwyn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ac adlewyrchu'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg, rydym yn creu cyfres o dri chymhwyster Cymraeg newydd. Mae'r rhain yn cynnwys TGAU iaith a llenyddiaeth integredig newydd (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd) yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, TGAU newydd i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chymhwyster ychwanegol newydd i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gyson â'i nodau polisi ar gyfer y Gymraeg.

Rydym am i bob dysgwr allu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus o fewn continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg, sy'n cynnwys dysgwyr heb fawr ddim profiad iaith, os o gwbl, hyd at y rhai sy'n hyfedr yn yr iaith. Mae cymwysterau Cymraeg i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gyda disgwyliadau eisoes wedi'u codi'n sylweddol yn y TGAU ddiwygiedig a gyflwynwyd i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017.

Fodd bynnag, gwyddom fod angen i gymwysterau Cymraeg newid a bod yn rhaid i hyn gael ei arwain gan y cwricwlwm. Mae Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ('y Canllawiau') ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad ('Maes') leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cyflwyno cysyniad continwwm Cymraeg. Mae'n cynnwys set ar wahân o ddisgwyliadau (a fynegir fel 'disgrifiadau o ddysgu') ar gyfer y cynnydd y disgwylir i ddysgwyr ei wneud wrth ddysgu Cymraeg os ydynt yn astudio mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol gyflymder y gellir disgwyl i ddysgwyr ddatblygu eu gallu ieithyddol gan ddibynnu a ydynt yn cael y rhan fwyaf o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae perthynas glir rhwng y ddwy set o ddisgwyliadau sy'n caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen ar hyd un continwwm Cymraeg.

Mae'r Canllawiau'n adlewyrchu'r ffaith y byddai'n anodd i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg gyflawni'r un lefel ieithyddol â dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan nad ydynt yn cael eu hamlygu cymaint i'r iaith nac yn cael cymaint o gysylltiad â hi. Er bod y ffiniau rhwng gwahanol leoliadau addysg yng Nghymru wedi'u meddalu, mae'r Cwricwlwm i Gymru serch hynny yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r gwahaniaethau presennol sy'n parhau rhwng lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

---

<sup>6</sup> [https://www.cymwysteraucymru.org/media/8317/penderfyniadau\\_ar\\_gymwysterau\\_cymraeg\\_y\\_dyfodol\\_final.pdf](https://www.cymwysteraucymru.org/media/8317/penderfyniadau_ar_gymwysterau_cymraeg_y_dyfodol_final.pdf)



Ymatebgardeb Cymhwysrwy Cymru | Paschwilio ffrwy Estalificsioys Wleadalewyrchu continwwm Cymraeg, sy'n gosod gwahanol ddisgwyliadau a deilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr gan ddibynnu ar eu lleoliad, mewn cymwysterau.

Wrth wneud hynny, esboniwyd y rhesymau pam na fyddai'n bosibl ar hyn o bryd cynllunio un cymhwyster a allai asesu pob dysgwr ym mhob lleoliad yn deg ac yn ddibynadwy. Ar hyn o bryd, mae'r gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ac ar gyfer y rhai mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhy fawr i'w gwmpasu o fewn un cymhwyster. Bydd cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg newydd i gryfhau a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i ysgolion ledled Cymru, gan sicrhau bod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynllun gweithlu'r Gymraeg mewn addysg yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus, yn sicr o leihau'r gwahaniaeth rhwng lleoliadau dros amser.

Dim ond rhan o'r darlun yw ein penderfyniad i greu dau gymhwyster TGAU newydd, gwahanol ar gyfer dysgwyr mewn gwahanol leoliadau. Er mwyn adlewyrchu'n well egwyddor continwwm dysgu Cymraeg, rydym hefyd yn creu cymhwyster ychwanegol bach i ymestyn a herio dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.

Rydym o'r farn bod cyflwyno'r cymhwyster newydd hwn yn ddatblygiad cyffrous a phwysig. Bydd yn ategu ac yn adeiladu ar y dysgu sy'n digwydd fel rhan o'r prif TGAU ond bydd hefyd yn gyfle i'r dysgwyr hynny sydd wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o'r blaen ond sydd wedi trosglwyddo i leoliad cyfrwng Saesneg barhau i ddatblygu lefelau eu sgiliau a hyfedredd yn y Gymraeg.

Yn rhan o'r broses gyd-adeiladu, mae'r gweithgorau'n teimlo y dylai'r cymhwyster ychwanegol fod yn llai o faint na TGAU. Teimlant hefyd y dylai fod yn hyblyg o ran cynnwys, gan ganolbwyntio ar lafaredd ac ysgrifennu estynedig gan mai dyma'r sgiliau a fydd yn helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus a symud ymlaen ymhellach yn eu sgiliau Cymraeg ac o ganlyniad ar hyd y continwwm.

Rydym yn cydnabod y bydd y sefyllfa'n newid dros amser ac y bydd angen i ni addasu a newid y cymwysterau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben. Bydd angen i ni hefyd adolygu'r cymwysterau a gynigir i weld ai cymwysterau lluosog yw'r dull cywir o hyd.

I'r perwyl hwnnw, rydym wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i fynd ar drywydd uchelgeisiau Cymraeg 2050 ar y cyd ac, yn y pen draw, nod un cymhwyster ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru.

## **Cymwysterau i gefnogi addysg a hyfforddiant ôl-orfodol**

Mae siciliau Cymwysterau Galwedigaethol Qualifications Wales yn darparu addysg uwch a chyflogwyr mewn ystod eang o yrfaeodd a meithrin hyder y cyhoedd yn amrywiaeth ac ansawdd y cymwysterau hynny a ddyfernir yng Nghymru wedi bod yn flaenoriaeth strategol allweddol i ni, a bydd yn parhau i fod felly.

Mae'r Cytundeb Cydweithio (2021)<sup>7</sup> rhwng Llywodraeth Lafur Cymru a Phlaid Cymru yn nodi ymrwymiad i:

*'...ehangu'n sylweddol yr ystod o gymwysterau galwedigaethol a wnaed yng Nghymru i weddu i anghenion ein dysgwyr a'n heconomi.'* (tudalen 10)

Adolygiadau sector yw asgwrn cefn y ffordd yr ydym yn adolygu'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru, ac yn datblygu cymwysterau newydd, wedi'u gwneud i Gymru lle rydym o'r farn bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. Maent yn rhoi cyfle i gasglu dirnadaeth ac arbenigedd defnyddiol yn uniongyrchol o sectorau proffesiynol i gynllunio darpariaeth a gofynion ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol. Maent yn rhan hanfodol o'r ffordd yr ydym yn llunio cymwysterau a'r ffordd y cânt eu hasesu i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru ac i lywio ein ffyniant cenedlaethol yn y dyfodol.

Mae Adolygiadau Sector yn ymgymeriad sylweddol a chynhwysfawr a gallant gymryd peth amser i'w cwblhau. Er mai hwy fu'r dull cywir ar gyfer y sectorau mwyaf, rydym wedi datblygu dull gwahanol a chyflymach ar gyfer gweddill y sectorau. Mae ein rhaglen bresennol o adolygiadau sector yn canolbwyntio ar asesu'r cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd, ac sy'n debygol o fod ar gael yn y dyfodol, i'w defnyddio ar gyrsiau addysg bellach ôl-16 amser llawn, ysgolion chweched dosbarth a phrentisiaethau mewn meysydd sector allweddol, ac ystod ac argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hynny.

Wrth gynnal adolygiadau sector, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Coleg. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Coleg a City & Guilds yn ystod ein hadolygiad o'r sector Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid. Rydym wedi ariannu City & Guilds i sicrhau bod eu cymhwyster Amaethyddiaeth Lefel 3 ar gael yn y Gymraeg am ddwy flynedd i oresgyn pryderon gan golegau addysg bellach am argaeledd parhaus cymhwyster Amaethyddiaeth Lefel 3 cyfrwng Cymraeg addas. Mae gwaith yn parhau gyda City & Guilds a'r Coleg i ddatblygu cymhwyster dwyieithog newydd ar gyfer y tymor hwy. Bwriadwn gyhoeddi ein hadroddiad ar ein hadolygiad sector o Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid yn ddiweddarach eleni.

---

<sup>7</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cytundeb-cydweithio-2021.pdf>



Yn stribedol gyfnewt sec Gyblach Brodynefraes Dechyd a Gofal Gyndeithasol, a Gofal Plant ac Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (dau faes blaenoriaeth a nodwyd gan y Coleg yn ei *Gynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau*), comisiynwyd cymwysterau newydd wedi'u gwneud i Gymru sydd oll ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cefnogi system gymwysterau Cymru

Mae cefnogi cyrff dyfarnu yn eu gwaith i ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, gan hefyd gryfhau gallu a meithrin gwydnwch o fewn y system, yn faes ffocws allweddol i ni. Rydym yn cynorthwyo ac yn cefnogi cyrff dyfarnu i sicrhau bod eu cymwysterau a'u hasesiadau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn nifer o ffyrdd.

### Cyllid grant

Yn gyntaf, rydym yn cefnogi'r system gymwysterau drwy gynllun grant i gyrff dyfarnu ddarparu cymorth ariannol i gynyddu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ein blaenoriaeth gyffredinol yw cefnogi cymwysterau sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan ddysgwyr 14-19 oed ar raglenni dysgu amser llawn a ariennir a/neu i'w defnyddio ar brentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, dyrannwyd cyfanswm cyllideb o £840k gennym, sef £50k i ariannu diwygiadau a £790k<sup>8</sup> i ariannu argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Eleni rydym wedi dyfarnu tua £192k<sup>9</sup> o gyllid drwy ein cyllid grant cystadleuol i gefnogi argaeledd amrywiaeth o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, a'r rheini'n rhai sefydledig a newydd, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi'r gwaith o gyfieithu nifer o gymwysterau o fewn y sectorau peirianeg, amaethyddiaeth a chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, mewn ymateb i ganfyddiadau ein rhaglen o adolygiadau sector. Rydym yn parhau i ddarparu ar gyfer cymwysterau Cymraeg i Oedolion (£176k yn 2020-21) ac yn cyfrannu at gostau CBAC ar gyfer darparu cymwysterau dwyieithog (£356k yn 2020-21)<sup>10</sup>.

Hyd yma, bu'r cyllid sydd ar gael drwy ein cynllun grant yn ddigonol i fodloni'r holl geisiadau a gawsom. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg, a'n gofyniad y bydd angen i bob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed fod ar gael yn ddwyieithog o 2027 ymlaen, ill dau yn debygol o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun. Mae hyn yn debygol o arwain at yr angen am arian grant ychwanegol. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei drafod gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r galw gynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

### Canllawiau

<sup>8</sup> [adroddiad blynyddol-2020-21.pdf \(qualificationswales.org\)](https://www.qualificationswales.org/androddiad-blynyddol-2020-21.pdf)

<sup>9</sup> <https://www.qualificationswales.org/media/8107/annual-accounts-2020-21-cym.pdf>

<sup>10</sup> <https://www.qualificationswales.org/media/8107/annual-accounts-2020-21-cym.pdf>

Rydym hefyd yn ddiwybwrdd Cymru a Rhwngwladol i Gymraeg, a ddatblygu, darparu a dyfarnu eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg<sup>11</sup>, ac ar hyn o bryd rydym yn datblygu pecyn adnoddau rhyngweithiol i gyrff dyfarnu ar gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol', gan bwysleisio manteision dull mwy rhagweithiol o grisialu dewis iaith dysgwyr a hyrwyddo a marchnata argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr, ysgolion a cholegau.

Bu'r adborth yn gadarnhaol gan bawb dan sylw ac, yn fwyaf arwyddocaol i ddysgwyr, gan gyrff dyfarnu, sy'n teimlo y bydd canllawiau ac adnoddau o'r fath yn eu helpu i gynyddu argaeledd ac ystod cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Credwn hefyd y bydd rhannu arfer gorau ymhlith gyrff dyfarnu yn gwella ansawdd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dyna pam y gwnaethom sefydlu ein grŵp cymorth Cymraeg Cyrff Dyfarnu sy'n cyfarfod unwaith y tymor (dwy i dair gwaith y flwyddyn) ac yn rhoi cyfleoedd i drafod materion sy'n ymwneud â chymwysterau ac asesu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## **Heriau wrth gynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Gan edrych ymlaen at gyflwyno Bil Addysg Cymru, rydym yn amlinellu isod heriau penodol ar gyfer y system gymwysterau, y dulliau rheoleiddio a pholisi sydd ar gael i ni fel rheoleiddiwr annibynnol i fynd i'r afael â'r rheini, yn ogystal â rhai o'r heriau systemig y bydd angen eu datrys ar y cyd.

## **Hyfywedd masnachol cymwysterau a'r maes cymwysterau yn newid yn Lloegr**

Mae un o'r risgiau mwyaf i gymwysterau galwedigaethol ôl-16 yng Nghymru yn ymwneud â'u hyfywedd. Er ein bod yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael yn y Gymraeg, mae realiti'r farchnad gymwysterau yn golygu bod problemau o ran hyfywedd masnachol oherwydd niferoedd cymharol fach y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau mewn rhai meysydd pwnc.

Yn hanesyddol, mae Cymru wedi bod yn ddibynnol ar gymwysterau sydd wedi'u datblygu ledled y DU, gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dilyn y cymwysterau yn Lloegr. Wrth i'r cymwysterau hyn ledled y DU ddod i ben, neu wrth iddynt gael eu hadnewyddu, rhaid i'r gyrff dyfarnu sy'n eu cynnig wneud penderfyniadau masnachol ynghylch a yw'n ymarferol iddynt barhau i gynnig y cymwysterau i farchnad lawer llai yng Nghymru. Os oes gan y cymwysterau fathau o asesu sy'n ddrutach i gyrff dyfarnu eu datblygu a'u cynnal megis profion ac arholiadau, yna daw hyfywedd yn fwy byth o her. A phan fyddwch yn ychwanegu at hynny ofyniad neu gais i asesiad fod ar gael mewn mwy nag un iaith, efallai na fydd y cyfrifiadau cychwynnol fel petaent yn taro deuddeg.

---

<sup>11</sup> <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/canllawiau-i-gyrff-dyfarnu-ar-ddatblygu-darparu-a-dyfarnu-cymwysterau-drwy-gyfrwng-y-gymraeg/>

Bydd hefyd gadw ysterau cymwysterau yn Lloegr a'i effeithio ar y cymwysterau a gynigir o fewn system Cymru. Bydd cyflwyno cymwysterau lefel T newydd yn golygu na fydd rhai cymwysterau lefel 3 presennol yn cael eu hariannu yn Lloegr mwyach. Gall adolygiad parhaus o gymwysterau ar lefel 2 ac is hefyd arwain at ganlyniadau tebyg. Rydym yn cysylltu â chyrff dyfarnu, ac yn gweithio'n agos gyda hwy, ynghylch y risgiau y mae'r rhain yn eu creu. Mae rhai cyrff dyfarnu wedi ymrwmo i ymestyn cymwysterau y tu hwnt i'r dyddiad y cânt eu dadariannu yn Lloegr. Mae hyn yn gyfle i ni weithio gyda'r cyrff dyfarnu hynny i gael cymwysterau modern, newydd ar waith i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Mae gennym rôl ehangach na rheoleiddwyr cymwysterau eraill ledled y DU am ein bod, yn ogystal â rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru, hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ystod gywir o gymwysterau ar gael i bobl ifanc yn y lle cyntaf. Os gwelwn nad yw'r ystod gywir ar gael, gallwn wneud trefniadau gyda chyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd drwy drefniadau cytundebol neu fel arall.

Bu comisiynu datblygiad cymwysterau newydd yn opsiwn da ar gyfer galwedigaethau lle mae niferoedd dysgwyr hyfyw os dewisir un corff dyfarnu. Mae hefyd wedi golygu y gallwn gynnwys gofyniad i sicrhau bod asesiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd, gan hyrwyddo'r cynnig dwyieithog.

Rydym yn ymwybodol o rai galwadau i ni gomisiynu ystod lawn o gymwysterau wedi'u gwneud i Gymru i ddiwallu anghenion pob dysgwr ôl-16 yng Nghymru. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da yn y meysydd mwy o faint, mwy hyfyw fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu a Pheirianeg, mae'n annhebygol mai dyma'r ateb i bob maes galwedigaethol, yn enwedig y rhai â niferoedd cymharol isel o ddysgwyr – o leiaf heb gymhorthdal ariannol sylweddol. Mae hefyd yn ymarfer sy'n cymryd llawer o amser, pan ystyrir cyfnodau ymgynghori, caffael, datblygu a rheoli newid.

A ninnau'n rheoleiddiwr, ein rôl yw camu i'r adwy i fynd i'r afael â methiant y farchnad – mewn byd delfrydol, byddai cyflenwyr (sef cyrff dyfarnu yn yr achos hwn) yn diwallu anghenion y farchnad yn uniongyrchol.

Felly, ar gyfer galwedigaethau eraill lle mae materion hyfywedd yn parhau, mae angen inni edrych ar yr her mewn ffordd wahanol. Drwy feithrin a chynnal perthynas dda â changhennau datblygu cyrff dyfarnu sy'n weithgar yng Nghymru, rydym yn gweithio i ragweld a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau posibl yn y cymwysterau a gynigir. Rydym yn annog cyrff dyfarnu i ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys:

- addasu eu cynnig cymwysterau rhyngwladol;

- rhesymoli nifer yr unedau dewisol i wneud cymwysterau'n fwy hyfyw.

Felly, p'un a gaiff cymwysterau eu gwneud ar gyfer Cymru, eu haddasu ar gyfer Cymru, neu eu mabwysiadu yng Nghymru, mae ffyrdd o fynd i'r afael â mater hyfywedd ar y cyfan, ond bydd angen ymdrech gydweithredol a chydunol i wneud hynny.

Os bydd disgwyliadau'n newid o ran ein rôl fel rheoleiddiwr wrth symud ymlaen, gyda mwy o ffocws a phwyslais ar ficoreoli'r farchnad gymwysterau yng Nghymru, bydd hyn yn gofyn am gyllid ac adnoddau ychwanegol.

### Gweithlu'r Cyrff Dyfarnu

Mae Cymraeg 2050 yn nodi y bydd cynnydd yn nifer yr aseswyr, cymedrolwyr a gwirwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i sicrhau bod ystod o gymwysterau cyfrwng Cymraeg, gyda llwybrau dilyniant clir, ar gael i ddysgwyr.

Mae ein strategaeth Dewis i Bawb hefyd yn cydnabod hyn fel her, ac mae Cynllun Gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydnabod '*os nad oes aseswyr â chymwysterau addas, yna mae'r system yn annhebygol o gyflawni'r twf a ragwelir.*'

Er bod rhai cyrff dyfarnu yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon, mae argaeledd aseswyr a gwirwyr cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gyrff dyfarnu rhag cynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae'r diffyg gwirioneddol neu ganfyddedig hwn o aseswyr a gwirwyr priodol a hyfedr wedi arwain yn aml at gyrff dyfarnu yn dewis peidio â sicrhau bod eu cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, a thros gyfnod ein strategaeth 5 mlynedd, rydym yn archwilio ffyrdd o gefnogi cyrff dyfarnu i nodi sgiliau Cymraeg ymhlith aseswyr a gwirwyr, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ("y Coleg") a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn nodi'r capasiti presennol a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol.

### Cydredeg darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol ag argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Y casgliad rhesymegol o ran cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg, a chyflawni Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn llwyddiannus dros y 10 mlynedd nesaf, yw y bydd mwy o ddysgwyr yn gadael addysg statudol ac yn ymuno â'r sectorau ôl-16 yn meddu ar sgiliau Cymraeg. Mae hyn, yn ei dro, yn cynyddu'r potensial a'r gofyniad i ddatblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

Mae ddatblygu Cymraeg yn system y cyrroleg a'r addysg yn ddarlun strategol o aros yn eu cymunedau lleol<sup>12</sup> felly mae cefnogi eu dilyniant ieithyddol drwy argaeledd cymwysterau galwedigaethol dwyieithog yn bwysig. Bydd hyn yn cefnogi'r weledigaeth o weithlu dwyieithog, yn barod i weithio'n ddwyieithog a chyfrannu at y targed cenedlaethol i:

*Ddatblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u meistrolaeth ar yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.<sup>13</sup>*

Gan gydnabod pwysigrwydd gwella'r broses o gynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16, gobeithiwn weld y maes hwn yn cael ei gryfhau o fewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod cyfnod 2022-2032. Bydd hyn yn helpu i gymell a hwyluso cydweithio rhwng darparwyr ar draws y sector ôl-16, ac yn ei dro, yn dechrau mynd i'r afael â hyfywedd cymwysterau.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn rhan o'u hystyriaeth Cyfnod 1 o Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)<sup>14</sup>, cadarnhaodd y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg nad uchelgais y Llywodraeth oedd "ateb y galw presennol yn unig." Dywedodd ei fod am "wthio" lefel y ddarpariaeth "yn fwy eang ac annog mwy a mwy o bobl o fewn y system i fanteisio arni ...". Tynnodd sylw hefyd at y ffaith mai un o'r blaenoriaethau newydd o fewn gwaith Cymraeg 2050 yw datblygu ymhellach y cynnig cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16, a mynegodd ei ddisgwyliad:

*"... y bydd cyfrifoldebau ar gyfer datblygu meysydd gwaith yn cael eu pennu gan adlewyrchu cylch gwaith ac arbenigedd priodol pob sefydliad er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a sicrhau bod ymyriadau'n cael yr effaith fwyaf posibl. Rhagwelir y bydd dogfennau cynllunio strategol yn cael eu halinio lle bo hynny'n briodol a dylid rhoi trefniadau cadarn ar waith i fesur effaith ymyriadau ar gynyddu cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol."*

Bydd gweithio strategol effeithiol ar draws y sector addysg yn hanfodol i gyflawni'r targedau a nodir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac, y tu hwnt i'r rheini, wrth gyflawni canlyniadau Cymraeg 2050. Mae hyn yn arbennig o wir am y sector ôl-16.

<sup>12</sup> [tuagatcymraeg2050.pdf](https://tuagatcymraeg2050.pdf) (colegcymraeg.ac.uk)

<sup>13</sup> [Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | GOV. CYMRU](https://www.gov.wales/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg)

<sup>14</sup> <https://senedd.cymru/media/enxjhxif/cr-ld14996-w.pdf>

Dynodir y cydlynwrthi Gysefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Dew W/ Bawb. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol gan gynnwys colegau addysg bellach i gydweithio i ystyried ffyrdd o gynyddu argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth edrych ar Gynlluniau Strategol drafft y Gymraeg mewn Addysg a'u hadroddiadau o dan Ganlyniad 4 (Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg)<sup>15</sup>, daethom o hyd i lawer o ddata a dadansoddiadau da o'r ddarpariaeth bresennol a gwybodaeth ddefnyddiol am y galw yn y dyfodol am gymwysterau Cymraeg ôl-16.

Bydd defnyddio'r wybodaeth hon, a gweithio ar y cyd ac yn strategol gyda rhanddeiliaid, yn ogystal â phartneriaid allweddol fel y Coleg a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil sydd i'w sefydlu'n fuan, yn ein galluogi i gynllunio a chysoni darpariaeth a chymwysterau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y dyfodol. I'r perwyl hwnnw, byddem yn croesawu ychwanegu Cymwysterau Cymru yn Atodiad 3 o'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 87(5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013<sup>16</sup>, sy'n rhestru ystod eang o sefydliadau a sut y gallant helpu awdurdodau lleol wrth weithredu eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Wrth sefydlu un corff sy'n gyfrifol ar draws y sector addysg drydyddol, bydd angen i'r Comisiwn ddatblygu perthynas effeithiol ac ystyrion ar draws y sector. Bydd rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn a ninnau hefyd yn hanfodol os ydym am arfer ein priod swyddogaethau statudol yn effeithiol. Edrychwn ymlaen at ddatblygu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Comisiwn newydd a byddwn yn ceisio ffurfioli'r berthynas honno maes o law.

Yn yr un modd, ac fel y soniwyd uchod, rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda'r Coleg ar gynllunio a datblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a chynyddu dilyniant ieithyddol rhwng addysg statudol ac addysg bellach a phrentisiaethau. Ystyriwn fod y Coleg yn bartner strategol allweddol ac rydym wrthi'n edrych ar ffyrdd o gryfhau'r berthynas waith gadarnhaol hon, a chydweithio'n fwy i gyrraedd nodau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr.

### **Cadw dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae pwyntiau allweddol lle gwelwn nifer y dysgwyr yn symud o addysg cyfrwng Cymraeg; pwyntiau pontio rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3<sup>17</sup>, blwyddyn 9, a phan fyddant yn symud i ddarpariaeth ôl-16. Bydd symleiddio'r ffordd y caiff ysgolion eu categorio yn ôl eu darpariaeth Gymraeg er mwyn rhoi eglurder ynghylch y

<sup>15</sup> [Canllawiau ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg \(llyw.cymru\)](#)

<sup>16</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

<sup>17</sup> [Gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg - Adroddiad terfynol \(llyw.cymru\)](#) (2016)



Yn y cyfnewid i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg, mae'r Ddeddfwriaethol yn ôl cyfrwng addysgu'r ysgol, yn ogystal ag annog a chefnogi ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, yn ein barn ni, yn gwneud llawer i wella cyfraddau parhad.

Credwn fod gan gymwysterau, a'r system gymwysterau rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran hyrwyddo hyder dysgwyr a sicrhau rhieni, ac wedi hynny cadw dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg wrth iddynt symud ymlaen.

Dywedodd Estyn yn eu hadroddiad yn 2017 'Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach'<sup>18</sup>:

*Mae mwyafrif y dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cwblhau eu haseniadau a'u hasesiadau terfynol drwy gyfrwng y Saesneg. Mae gan y diffyg arholiadau ac asesiadau terfynol drwy gyfrwng y Gymraeg y potensial i gael effaith andwyol ar statws darpariaeth cyfrwng Cymraeg.*

Mae amrywiaeth o resymau cydgysylltiedig am hyn, gan gynnwys amgylchiadau teuluol, cost cludiant i'r ysgol a diffyg ymwybyddiaeth am gymwysterau ac opsiynau asesu cyfrwng Cymraeg.

Bydd cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a'u hyrwyddo a'u hysbysebu'n well yn chwarae rhan bwysig wrth ganiatáu i ddysgwyr gwblhau cymwysterau ac asesiadau yn eu dewis iaith, ac yn eu tro, parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein penderfyniad i sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg erbyn 2027 yn un arwyddocaol yn hynny o beth. Bydd hyn yn arwain at gydbwysedd llawer tecach o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg nag sy'n wir ar hyn o bryd, ond bydd hefyd yn helpu i gyfrannu at yr amcan cenedlaethol ehangach. Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun i ymchwiliad y Pwyllgor, nifer y cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc 14-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg yw 562; mae hyn yn cyfateb i ryw 48% o'r cymwysterau a gynigir.

Yn yr un modd, bwriad ein penderfyniad i greu nifer o gymwysterau Cymraeg i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw helpu i fynd i'r afael â mater cynnal a chydabod sgiliau iaith dysgwyr a gaffaelwyd o 3 i 16 oed drwy gynnig her ieithyddol addas a'u cefnogi i wneud y cynnydd gorau posibl ar hyd y continwmm Cymraeg.

Er mwyn i ganolfannau a dysgwyr deimlo eu bod wedi'u grymuso a'u hannog i gofrestru ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg, gwyddom fod angen i wybodaeth fod ar gael ac yn hawdd ei chael, yn ogystal â chael ei lledaenu'n rhagweithiol. Dyna pam

---

<sup>18</sup>[https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Bilingual%2520Teaching%2520in%2520FE%2520cy\\_0.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Bilingual%2520Teaching%2520in%2520FE%2520cy_0.pdf)

Ydy'r bwrdd hwn yn byddu'n archwilio Respondd Ffônau Qualiffatio'n Gofnion data cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cofnodi dewis iaith pob dysgwr adeg cofrestru a'r cyfrwng iaith y cwblhawyd y cymhwyster ynddo a'n gofynion o ran hyrwyddo a hysbysebu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

### **Sicrhau gweithlu addysg digonol i gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Bydd llwyddiant y sector statudol, yn enwedig yng nghyd-destun y trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a datblygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd, yn dibynnu ar ateb yr her o gynyddu nifer yr athrawon a'r gweithwyr cymorth sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg.

Canfu adroddiad ym mis Gorffennaf 2020 ar y farchnad lafur athrawon brinder yn y Gymraeg ynghyd â phynciau eraill<sup>19</sup>. Yn ogystal, mae Estyn wedi canfod o'r blaen fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu mwy o anawsterau recriwtio ac yn ei chael yn anodd cael gafael ar staff cyflenwi sy'n siarad Cymraeg<sup>20</sup>. Dengys ystadegau Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd fod nifer yr athrawon cofrestredig sy'n gallu siarad Cymraeg (33.5% yn 2021) neu weithio drwy gyfrwng y Gymraeg (27% yn 2021) wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf<sup>21</sup>.

Cydnabu Llywodraeth Cymru hefyd y bu'n heriol cyflawni'r targedau ar gyfer y gweithlu addysg. Yn ôl ei chyhoeddiad Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026<sup>22</sup>, roedd 2,789 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn academiaidd 2019 i 2020 o gymharu â'r targed o 3,100 yn Cymraeg 2050 ar gyfer 2021, sef diffyg o 311 (10.0%). Yn 2019 i 2020 roedd 2,339 o athrawon uwchradd yn dysgu yn y Gymraeg o gymharu â tharged o 2,800 ar gyfer 2021, sef diffyg o 500 (16.5%).

Bydd gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn helpu i gyfrannu at gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu siarad Cymraeg neu weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae sicrhau digon o staff sy'n gallu darparu rhaglenni astudio ôl-16, gan gynnwys y cymwysterau eu hunain, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn her y bydd angen ei chyflawni er mwyn cyflawni targedau a chanlyniadau Cymraeg 2050.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi'r Gymraeg fel pwnc blaenoriaeth, oherwydd y galw cynyddol am addysg ysgol cyfrwng Cymraeg ac y byddai'r Gymraeg fel pwnc yn fwy amlwg o fewn y cwricwlwm ysgol newydd. Ei nod oedd cynyddu nifer y myfyrwyr Safon Uwch Cymraeg i fwy na mil erbyn 2021, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n mynd ymlaen i astudio Cymraeg yn y brifysgol a hyfforddi i fod yn athrawon.

<sup>19</sup> Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Teacher labour market in Wales annual report 2020, Gorffennaf 2020

<sup>20</sup> Estyn, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd, Ionawr 2017

<sup>21</sup> Cyngor Gweithlu Addysg Cymru, Ystadegau blynyddol y gweithlu addysg ar gyfer Cymru, Medi 2021

<sup>22</sup> <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-rhaglen-waith-2021-i-2026-html>

Mae'n parhau pryder fel y gwerth gwybodaeth yn nifer y cofrestrïadau ar gyfer y ddau gymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg ar gyfer cyfres arholiadau haf 2022<sup>23</sup>. Dengys y tabl isod nifer y cofrestrïadau arholiadau ar gyfer 2022 o'u cymharu â'r niferoedd o 2019.

	<b>2019</b>	<b>2022</b>
Cofrestrïadau UG Cymraeg iaith gyntaf	260	195
Cofrestrïadau Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf	280	235
Cofrestrïadau UG Cymraeg ail iaith	350	300
Cofrestrïadau Safon Uwch Cymraeg ail iaith	250	230

Mae gwrthdroi'r duedd hon yn her ar y cyd i bob un ohonom sy'n gweithio yn y system addysg yng Nghymru.

Bydd y gwaith y mae'r Coleg yn ei wneud i gryfhau capasiti staffio drwy ei Gynllun Gweithredu Tuag at y Cymraeg 2050, ymrwymiad diweddar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu dysgu Cymraeg i staff addysgu<sup>24</sup> <sup>25</sup> a Chynllun Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru yn sbardunau strategol allweddol wrth fynd i'r afael â'r her hon.

O ran yr olaf, rydym yn croesawu ei gyhoeddi ac yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg i ddatblygu unrhyw gymwysterau newydd a reoleiddir.

<sup>23</sup> [Cymwysterau Cymru / Cofrestrïadau Dros Dro ar gyfer Haf 2022: TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau i Gymru](#) - Tablau ystadegau mynediad 5 a 6

<sup>24</sup> [Adolygiad cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol \[HTML\] | GOV. CYMRU](#)

<sup>25</sup> [Ymateb i argymhellion yr adolygiad cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol \[HTML\] | GOV. CYMRU](#)